

CYNGOR CYMUNED CYNWYL ELFED
CYFARFOD 7.30 p.m. 20 o Fis Medi 2021

Yn Bresennol: Cyng. Bryan Davies (Cadeirydd), Cyng Julian Evans, Cyng. Delme Phillips, Cyng. Elfed Davies, Cyng. Eurig Rees, Cyng. Elsbeth Page, Cyng. Phillip Jones, Cyng. Eifion Jones a'r Cyng. Sir Irfon Jones.

Ymddiheuriadau: Derbyniwyd ymddiheuriadau yn ôl-weithredol gan Cyng. Wyn Evans.

Materion Personol / Cyhoeddiadau

Estynnodd y Cynghorydd Bryan Davies (Cadeirydd) cydymdeimlad dwys ar ran y Cyngor i'r Cynghorydd Elsbeth Page a'i theulu yn dilyn marwolaeth ei llys-fam, Mrs Jean Jones, yn ddiweddar.

38	<u>John Williams, Swyddog Heddlu Dyfed Powys</u> Yn dilyn pryderon a fynegwyd gan trigolion Cynwyl Elfed a hefyd drigolion Blaen y Coed penderfynodd y Cyngor gysylltu ag adran Gan Bwyll, Heddlu Dyfed Powys i gael cyngor. Mynychodd John Williams Cyn Arolygydd yr Heddlu wedi ymddeol, sydd bellach yn Swyddog gyda Heddlu Dyfed Powys, yr oedd ei gefndir mewn "Traffig" yn ystod ei gyrfa gyda Heddlu De Cymru, i siarad â'r Cyngor a rhoi gwybod pa gamau y gellir eu cymryd yn lleol. Yn benodol am y cynllun Gwyllo Cyflymder Cymunedol.
39	<u>Datgelu Buddianau Personol</u> Dim
40	<u>Cadarnhau'r Cofnodion - 26.07.21</u> Cadarnhawyd bod cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 26.07.21 yn gofnod cywir gan y Cyng. Eurig Rees ac eiliwyd gan y Cyng. Julian Evans.
41.	<u>Materion yn Codi o'r Cofnodion</u>
a.	<u>Gwasanaeth Bws 460</u> - y mater yn parhau .
b.	<u>Cylch Meithrin Bro Elfed</u> - Dywedodd y Cyng. Elfed Davies bod swyddi arweinydd/staff heb eu llenwi a nad yw'r Cylch Meithrin wedi llwyddo agor y tymor hwn. Mae'r pwyllgor yn dal yn ffyddiog ac mae'r swyddi yn cael eu hysbysebu eto.
c.	<u>Cais am bin sbwriel yng Ngwmduad</u> - dal i aros am ymateb oddi wrth y Cyngor Sir.
d.	<u>Cyfleusterau Cyhoeddus</u> - Mae'r gofalwr yn dilyn yr oriau newydd ac yn cau am 7 p.m. yn ystod y wythnos. Mae'r Cynghorwyr yn mynd i gael trafodaeth gyda'r gofalwr i gael gwybod siwt mae'r oriau newydd yn mynd.
e.	<u>Carafanau statig</u> - Nodwyd cynnydd amlwg yn yr ardal. Mater yn parhau.
f.	<u>Materion Priffyrdd adroddwyd ar 21.06.21</u> - Arosfan Esgair SA33 6UL - Adroddodd y Cyng. Julian Evans wrth y Cyngor bod trigolion Esgair yn bles ar y gwaith cafodd ei wneud i glyrio malurion a baw o amgylch y ffordd yn Esgair yn dilyn cyfarfod ar y safle gan Cynghorwyr lleol a swyddogion o'r Cyngor Sir ar 19fed o Awst.
g.	<u>Cyfrifiadur</u> - Penderfynnodd y Cyngor, gydag angen cynyddol i gadw Cofnodion y Cyngor yn electronig, ei bod yn angenrheidiol i'r Cyngor fuddsoddi mewn gliniadur sy'n addas ar gyfer y gwaith - mater yn parhau.

<p>42</p> <p>a.</p> <p>b.</p>	<p><u>Gohebiaeth</u> Mae copiau o'r holl e-byst perthnasol a dderbyniwyd wedi'u hanfon at Gyngorwyr cyn y cyfarfod.</p> <p>Derbyniwyd llythyr oddi wrth C.Ff.I. Sir Gâr yn holi i'r Cyngor ystyried rhoi cefnogaeth ariannol tuat at gostau rhedeg Mudiad y Ffermwyr Ifanc ar lefel y Sir. Penderfynodd y Cyngor i edrych ar y cais eto ym mis Chwefror 2022 ar yr adeg pan mae'r Cyngor yn delio gan ceisiadau am Grantiau Bach o dan Adran 137. Clerc i ymateb a threfnu i anfon ffurflen gais yn agosach at yr amser.</p> <p>Darllenwyd sawl llythyr a dderbyniwyd oddi wrth trigolion Cynwyl Elfed. Roedd y mater o bryder i ymwneud â diogelwch ar y ffordd drwy Cynwyl Elfed, gyda llawer iawn o draffig i'w weld yn mynd dros y terfyn cyflymder drwy'r pentre ac ar adegau cerbydau yn gyrru dros rhan o'r palmant. Mae'r Cyngor wedi rhoi gwybod i Heddlu Dyfed Powys ac hefyd i adrannau priffyrdd a thrafnidiaeth Cyngor Sir Gaerfyrddin. Bydd y mater yn cael ei drafod yng nghyfarfod nesaf o'r Cyngor Cymuned pan bydd rhagor o wybodaeth wedi'i dderbyn am y cynllun "Gwyllo Cyflymder Cymunedol" ac hefyd ymateb wedi'i dderbyn oddi wrth adrannau priffyrdd a thrafnidiaeth y Cyngor Sir.</p>						
<p>43</p>	<p><u>Cynllunio</u> PL/02655-Gosod gwaith trin carthffosiaeth preifat a newid defnydd yr adeilad presenol i floc toilet a chawod mewn safle carafanau ardystiedig - Rose Villa, Cynwyl Elfed SA33 6SY. Trafodwyd y mater a phenderfynodd y Cyngor gefnogi Cais Cynllunio PL/02655.</p>						
<p>44</p> <p>a.</p> <p>b.</p> <p>c.</p> <p>d.</p> <p>e.</p>	<p><u>Taliadau a Chyllud</u></p> <table border="0"> <tr> <td>Cyflog y Clerc - 31.08.2021</td> <td>£214.15</td> </tr> <tr> <td>Allweddi sbâr i'r cwpwrdd o dan glô</td> <td>£ 13.95</td> </tr> <tr> <td>EDF Energy-Trydan Cyfleusterau Cynwyl Elfed</td> <td>£113.06</td> </tr> </table> <p>Cytunodd y Cyngor i wneud y taliadau uchod.</p> <p>Derbynnir y <u>bil ynni</u> ar ddechrau'r mis ac mae'n rhaid ei dalu cyn pen 14 diwrnod o dyddiad y bil. Gofynnodd y clerch a allai drefnu bod y rhain yn cael eu talu yn syth ar ôl eu derbyn ac ar ôl eu gwirio gan y Cadeirydd a'r Is-gadeirydd, gyda'r taliadau yn cael eu cymeradwyo yng nghyfarfod nesaf y Cyngor. Penderfynodd y Cyngor cytuno i gais y Clerc.</p> <p><u>Contract Trydan</u> -Holodd y Cyng. Elfed Davies y cwestiwn "Pwy sy'n gyfrifol am adnewyddu y contract Trydan, a'i Cyngor Cymuned Cynwyl Elfed neu Cyngor Sir Gaerfyrddin?" Atebodd y Clerc nad oedd hi'n gwybod ond bydd yn cysylltu â Rhys Davies wythnos yma er mwyn cael y wybodaeth.</p> <p><u>Rheoliadau Ariannol a'r Rheolau Sefydlog</u> - Adolygodd y Cyngor ddogfen y Rheoliadau Ariannol a'r Rheoliadau Sefydlog a chytunwyd ar y ddau am y flwyddyn i ddod. Bydd y Rheoliadau Ariannol a'r Rheoliadau Sefydlog yn cael eu hadolygu eto yng Nghyfarfod Blyneddol y Cyngor a gynhelir ym mis Mai 2022.</p> <p><u>Aseiad Risg y Cyngor</u> - Cwblhaodd y Clerc ddogfen asesu risg. Chytunodd y Cyngor i dderbyn yr Aseiad Risg am y flwyddyn i ddod. Bydd Aseiad Risg y Cyngor yn cael ei hadolygu eto yng Nghyfarfod Blyneddol y Cyngor a gynhelir ym mis Mai 2022.</p>	Cyflog y Clerc - 31.08.2021	£214.15	Allweddi sbâr i'r cwpwrdd o dan glô	£ 13.95	EDF Energy-Trydan Cyfleusterau Cynwyl Elfed	£113.06
Cyflog y Clerc - 31.08.2021	£214.15						
Allweddi sbâr i'r cwpwrdd o dan glô	£ 13.95						
EDF Energy-Trydan Cyfleusterau Cynwyl Elfed	£113.06						

<p>45.</p> <p>a.</p> <p>b.</p> <p>c.</p>	<p><u>Materion Priffyrdd</u> Derbyniwyd ymateb oddi wrth y Cyngor Sir i'r adroddiad ddanfonwyd iddynt yn dilyn cyfarfod y Cyngor ym mis Gorffennaf. Mae'r Cyngor wedi gofyn i'r Clerc ysgrifennu i Adran Priffyrdd Cyngor Sir Gaerfyrddin am y gwaith a gwnaed yn Esgair ac hefyd am ddechrau'r gwaith o atgyweirio'r fford drwy Hermon. Penderfynwyd gan y Cyngor bod y Clerc i gysylltu â Cyngor Sir Gaerfyrddin ynglyn â: C2043 - SA33 6EP - ar yr ochr dde o'r ffordd wrth ichi agoshàu at y cyffordd ym Mhenrhiwcrynfryn o Cynwyl Elfed - adroddiadau wedi'u derbyn bod cerbydau'n aros wrth ymyl y ffordd yn creu peryg i ddefnyddwyr y ffordd fawr. Hefyd mae'n debyg bod yna ddau fynediad llydan i'r ffordd wedi eu creu.</p> <p>A484 - SA33 6AR: Gerllaw Oaklands ar Ffordd Cynwyl - Mae tyllau yn y ffordd wedi'u llenwi ond nid yw'r deunydd wedi'i bacio yn ddigonol. Mae beicwyr modur wedi cael syndod pan mae'r deunydd yn symud ac yn achosi peryg pan fyddant yn gyrru drosto.</p> <p>A484 - SA33 6TL - Hysbyswyd y Cyngor bod cerbyd mawr yn parcio o flaen hen garej Cynwyl Elfed ac yn gorchuddio rhan o'r palmant ac yn glynu allan i'r briffordd gan greu perygl.</p>
<p>46</p> <p>a.</p> <p>b.</p>	<p><u>Unrhyw Mater Arall</u> <u>Dogfen Ymgynghori Llywodraeth Cymru ar y cynnig arfaethedig i gostwng terfyn cyflymder i 20 m.y.a. ar ffyrdd cyfyngedig</u> Gofynnodd y Cyng. Delme Phillips i ddanfon yr e-bost allan unwaith eto. Mae dyddiad cau yr ymgynghoriad ar 30fed o Fis Medi. Penderfynwyd bod y Cadeirydd a'r Clerc yn cwblhau'r ddogfen ar ran y Cyngor.</p> <p>Rhiant wedi anfon ei plentyn i'r ysgol anghywir Roedd rhiant wedi cysylltu â Cyng. Julian Evans. Dywedasant ei bod wedi derbyn y cyfarwyddyd anghywir oddi wrth y Cyngor Sir ac yn holi a all y Cyngor Cymuned gweithredu ar ei rhan. Nid oedd y Cyngor yn gallu trafod y mater hwn heb y dystiolaeth i sefydlu beth oedd wedi digwydd. Mae'r mater hwn i'w drafod yn y cyfarfod nesaf ar yr amod bod y gwaith papur / tystiolaeth ategol wrth law.</p>
<p>47</p>	<p><u>Dyddiad ac amser y cyfarfod nesaf</u></p> <p>Nos Lun 18 Mis Hydref 2021 am 19.30 awr</p> <p>Daeth y cyfarfod i ben am 21.55 awr</p>

Arwyddwyd.....

Dyddiad.....